# FFURFLEN ASESU'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Gorffennaf 2019

## DATGANIAD CYDRADDOLDEB Y CYNGOR

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol, a byddwn yn gweithio yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hyrwyddo cysylltiadau da a chyd-barch o fewn ein cymunedau, ein trigolion, ein haelodau etholedig, y rhai sy'n gwneud cais i ni am swyddi a'n gweithlu a rhyngddynt.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at ein gwasanaethau, heb ystyried tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, credoau crefyddol neu ddiffyg cred, y defnydd o'r Gymraeg, iaith arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion nac unrhyw reswm arall na ellir dangos bod cyfiawnhad drosto.

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ofyniad cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb (Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011) lle nodwyd bod potensial ar gyfer effaith negyddol sylweddol. Bu'r ddeddfwriaeth hon ar waith ers 2000. Mae dyletswydd ddeddfwriaethol arnom hefyd i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio ac ymddygiad arall anghyfreithlon a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu
- meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r Ddeddf yn esbonio bod rhoi sylw dyladwy i hybu cydraddoldeb yn golygu gwneud y canlynol:

- dileu neu leihau'r anfanteision a wynebir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle bo'r anghenion hyn yn wahanol i anghenion pobl eraill
- annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle nad oes nifer cymesur ohonynt yn cymryd rhan.

Mae'r nodweddion gwarchodedig fel a ganlyn:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd, Cred neu Ddiffyg Cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Y Gymraeg*

* Ni nodir y Gymraeg fel nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ond yng Nghymru mae'n rhaid i ni hefyd drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal yn ogystal â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

# YR ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

| | |
|---|---|
| **ENW'R CYNNIG NEWYDD NEU DDIWYGIEDIG*** | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 |
| **CYFARWYDDIAETH** | Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **MAES GWASANAETH** | Gwella Busnes a Phartneriaethau |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Anwen Cullinane |
| **DYDDIAD ADOLYGU NEU DDIWYGIO NESAF** | 2024 |

***Drwy'r Ffurflen Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb hon, defnyddir ‘cynnig’ i gyfeirio at yr hyn sy'n cael ei asesu ac, felly, mae'n cynnwys polisïau, strategaethau, swyddogaethau, gweithdrefnau, arferion, mentrau, prosiectau a chynigion ar gyfer arbedion.**

Nod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb a'r Gymraeg wedi'u hystyried mewn ffordd ragweithiol drwy gydol prosesau gwneud penderfyniadau sy'n llywodraethu'r gwaith a wneir gan bob maes gwasanaeth yn y Cyngor, yn ogystal â gwaith a wneir ar lefel gorfforaethol.

Ymdrinnir yn fanylach â gwaith y Cyngor ym meysydd Cydraddoldeb, Y Gymraeg a Hawliau Dynol drwy **Amcanion a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb a'r Gymraeg 2016-2020**.

Wrth gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb dylech ystyried canlyniadau cadarnhaol a negyddol eich cynigion.  Os yw prosiect wedi'i anelu at grŵp penodol e.e. pobl anabl, mae angen i chi hefyd ystyried pa effeithiau y gallai eu cael ar feysydd eraill e.e. pobl ifanc ag anabledd, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ag anabledd.

Mae nifer o ddogfennau canllaw ategol ar gael ar **Borth yr Uned Polisi Corfforaethol** a gall tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg y Cyngor gynnig cyngor wrth i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael ei ddatblygu. Noder nad yw'r tîm yn llunio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ran meysydd gwasanaeth, ond cynigir cymorth ar ffurf cyngor, awgrymiadau ac i raddau helaeth, gymorth rheoli ansawdd.

Cysylltwch â **cydraddoldeb@caerffili.gov.uk** i gael cymorth.

## DIBEN Y CYNNIG

| | |
|---|---|
| 1 | **Yr hyn y bwriedir i'r cynnig ei gyflawni**<br>*(Rhowch ddisgrifiad cryno ac amlinellwch ddiben y cynnig newydd neu'r cynnig wedi'i ddiweddaru er mwyn cynnig cyflwyniad.)*<br><br>Datblygwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a'r amcanion cydraddoldeb sy'n rhan ohono er mwyn dogfennu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i gyflawni ei ddyletswyddau penodol. Mae'n ymdrin â'r holl nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y ffordd y mae'r Cyngor yn hybu cydraddoldeb, yn meithrin cysylltiadau da ac yn ymdrin ag achosion o wahaniaethu ac aflonyddu yn ei wasanaethau i gyd. |

| | |
|---|---|
| 2 | **Pwy yw'r defnyddwyr gwasanaeth y mae'r cynnig yn effeithio arnynt?**<br>*(Pwy y bydd y broses o roi'r cynnig hwn ar waith yn effeithio arnynt? e.e. aelodau o staff, y cyhoedd yn gyffredinol, neu adrannau penodol o'r cyhoedd h.y. grwpiau ieuenctid, gofalwyr, defnyddwyr ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl ar fudd-daliadau ac ati. A oes unrhyw fylchau data?)*<br><br>Pawb sy'n byw neu'n gweithio yn y fwrdeistref sirol neu'n ymweld, gan gynnwys aelodau o staff, rhanddeiliaid, trigolion, aelodau etholedig ac ymwelwyr y mae unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig yn berthnasol iddynt. |

## YR EFFAITH AR Y CYHOEDD A STAFF

| | |
|---|---|
| 3 | **A yw'r cynnig yn sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at yr holl wasanaethau sydd ar gael neu a gynigir, neu eu bod yn cael yr un budd o'r newidiadau arfaethedig, neu na fyddant ar eu colled mewn ffyrdd mwy sylweddol neu ddifrifol oherwydd y cynigion?**<br>*(Beth a wnaed i ystyried p'un a oes gan y grwpiau hyn fynediad cyfartal at y gwasanaeth ai peidio, neu a oes angen iddynt dderbyn y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill?)*<br><br>Ydy mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ceisio nodi a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a nodwyd sy'n atal pobl â nodweddion gwarchodedig rhag cyrchu gwasanaethau ac i weithio gyda nhw i ddod o hyd i atebion. |

| 4 | **A fydd eich cynnig yn effeithio ar unrhyw bobl neu grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig?**<br>*(A archwiliwyd y broses o ddarparu'r gwasanaeth er mwyn asesu a oes unrhyw effaith anuniongyrchol ar unrhyw grwpiau? A allai canlyniadau'r polisi neu'r cynnig ar gyfer arbedion fod yn wahanol gan ddibynnu ar nodweddion gwarchodedig pobl?)* |
|---|---|

| Nodwedd Warchodedig | Cadarnhaol, Negyddol, Niwtral | Beth fydd yr effaith?<br>Os yw'r effaith yn negyddol, sut y gellir ei lliniaru? |
|---|---|---|
| **Oedran** | Cadarnhaol | Ysgrifennwyd y CCS er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un, ni waeth beth fo'i nodwedd warchodedig. Gwnaethom ymgynghori â'r Fforwm 50+ ar Amcanion Drafft y CCS. Mae adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad wedi helpu i'n hysbysu am y camau gweithredu perthnasol y dylid eu rhoi ar waith er mwyn darparu ein gwasanaethau mewn ffordd well, fwy cynhwysol. |
| **Anabledd** | Cadarnhaol | Ysgrifennwyd y CCS er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un, ni waeth beth fo'i nodwedd warchodedig. Gwnaethom ymgynghori â'r Fforwm 50+, Caerphilly People First, Anabledd Cymru a Disability Can Do. Mae adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad wedi helpu i'n hysbysu am y camau gweithredu perthnasol y dylid eu rhoi ar waith er mwyn darparu ein gwasanaethau mewn ffordd well, fwy cynhwysol. |
| **Ailbennu Rhywedd** | Cadarnhaol | Ysgrifennwyd y CCS er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un, ni waeth beth fo'i nodwedd warchodedig. Ymgynghorwyd ag Umbrella Cymru, Stonewall Cymru a Grŵp Ieuenctid Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol CBSC. Mae adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad wedi helpu i'n hysbysu am y camau gweithredu perthnasol y dylid eu rhoi ar waith er mwyn darparu ein gwasanaethau mewn ffordd well, fwy cynhwysol. |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Cadarnhaol | Ysgrifennwyd y CCS er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un, ni waeth beth fo'i nodwedd warchodedig. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Cadarnhaol | Ysgrifennwyd y CCS er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un, ni waeth beth fo'i nodwedd warchodedig. |
| **Hil** | Cadarnhaol | Ysgrifennwyd y CCS er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un, ni waeth beth fo'i nodwedd warchodedig. Er i ni ymdrechu i ymgysylltu â phob sector o'r gymuned, mae'n amlwg na chafwyd unrhyw ymatebion gan unigolion sy'n cynrychioli'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig leol. Cafodd hyn ei gynnwys fel cam gweithredu o dan Amcan Cydraddoldeb Strategol 4 - *Adolygu a diweddaru ein grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn y fwrdeistref sirol sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchodedig.* |

| | | |
|---|---|---|
| **Crefydd a Chred** | Cadarnhaol | Ysgrifennwyd y CCS er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un, ni waeth beth fo'i nodwedd warchodedig. Er i ni ymdrechu i ymgysylltu â phob sector o'r gymuned, mae'n amlwg na chafwyd unrhyw ymatebion gan unigolion sy'n cynrychioli grwpiau crefyddol lleol. Cafodd hyn ei gynnwys fel cam gweithredu o dan yr Amcan Cydraddoldeb Strategol *Adolygu a diweddaru ein grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn y fwrdeistref sirol sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchodedig.* |
| **Rhyw** | Cadarnhaol | Ysgrifennwyd y CCS er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un, ni waeth beth fo'i nodwedd warchodedig. Gwnaethom ymgynghori'n benodol â Chwarae Teg. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Cadarnhaol | Ysgrifennwyd y CCS er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un, ni waeth beth fo'i nodwedd warchodedig. Ymgynghorwyd ag Umbrella Cymru, Stonewall Cymru a Grŵp Ieuenctid Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol CBSC. Mae adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad wedi helpu i'n hysbysu am y camau gweithredu perthnasol y dylid eu rhoi ar waith er mwyn darparu ein gwasanaethau mewn ffordd well, fwy cynhwysol. |

| | |
|---|---|
| **5** | **Yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, nodwch isod pa effeithiau, os o gwbl (boed yn gadarnhaol neu'n andwyol), y byddai'r cynnig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**<br>*(Gofynion penodol y Safonau o ran Llunio Polisi yw Safonau rhif 88, 89, 90, 91, 92 a 93. Mae manylion llawn pob Safon ar gael ar Borth yr Uned Polisi Corfforaethol. Er ei bod yn bwysig bod yr hyn a amlinellir yn y cynnig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ystyriwch yr effeithiau ehangach ar siaradwyr Cymraeg).*<br><br>Dim effaith negyddol ar y Gymraeg.<br><br>Er nad yw materion y Gymraeg wedi'u cynnwys yn **Neddf Cydraddoldeb 2010**, ceir set o safonau o dan **Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011**. Manylir ar y rhain yn y rheoliadau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru fel **Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**.<br><br>Mae un o'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg a'i nod yw sicrhau y gall y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg gael mynediad i wasanaethau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol |

## CASGLU GWYBODAETH

| | |
|---|---|
| 6 | **Amlinellwch unrhyw dystiolaeth a /neu waith ymchwil rydych wedi'u casglu sy'n ategu'r cynnig? Gall hyn gynnwys gwaith i ddadansoddi defnyddwyr y gwasanaeth.**<br>*(A yw'r gwasanaeth hwn yn ymgysylltu'n effeithiol â'i holl ddarpar ddefnyddwyr neu a oes nifer uwch neu nifer is o un neu fwy o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig yn cymryd rhan? Os felly, beth a wnaed i ymdrin ag unrhyw wahaniaeth yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth? A yw unrhyw gynnig ar gyfer arbedion yn cynnwys dadansoddiad o'r rheini yr effeithir arnynt?)*<br><br>Bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol yn ein helpu i barhau i wneud cynnydd wrth hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i bob nodwedd warchodedig ac yn ein helpu i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Bydd yr amcanion hefyd yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau fel y'u hamlinellir yn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Wrth ysgrifennu'r cynllun, defnyddiwyd gwybodaeth o gynlluniau sydd ar waith gan y Cyngor ar hyn o bryd, ochr yn ochr â deddfwriaeth ac adroddiadau perthnasol;<br><br>Cynllun Corfforaethol 2018-2023<br>**Deddf Cydraddoldeb 2010**<br>**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**<br>*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* (*Cymru*) 2015 Llywodraeth Cymru<br>**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**<br>➢ Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili 2018-2023<br>➢ *A yw Cymru'n Decach? 2015(EHRC)*<br>➢ A yw Cymru'n Decach? Adroddiad 2018 (EHRC)<br>➢ Llywodraeth Cymru - Fframwaith Cynhwysiant Digidol<br>➢ Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol<br>➢ Cynllun Gweithredu Ffyniant i Bawb<br>➢ Cymraeg 2050<br>➢ Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor - Safonau'r Gymraeg<br>➢ Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd<br>➢ Meithrin, Cymhwyso a Ffynnu<br>➢ Cydlyniant Cymunedol: Cynllun Cyflawni Cenedlaethol 2014-2016<br>➢ Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>➢ Tîm Caerffili – Strategaeth Trawsnewid Yn Well Gyda'n Gilydd<br>➢ Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd Lefel 2<br>➢ Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall<br>➢ Chwarae Teg – Adroddiad Cyflwr y Genedl 2019 |

## YMGYNGHORI

| | |
|---|---|
| **7** | **Amlinellwch y broses ymgynghori / ymgysylltu ac amlinellwch unrhyw ganfyddiadau allweddol.**<br>*(Dylech gynnwys y dull ymgynghori, amcanion a chynulleidfa darged. Pa gamau a gymerwyd i sicrhau yr ymgynghorwyd â phobl o amrywiol grwpiau wrth ddatblygu'r cynnig hwn? A ydych wedi cyfeirio at y Canllawiau Ymgynghori a Monitro ar gyfer Cydraddoldeb?)*<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol o 11 Tachwedd 2019 hyd at 6 Rhagfyr 2019. Cafodd yr ymgynghoriad gyhoeddusrwydd eang, roedd yn hygyrch ar nifer o lwyfannau ac roedd ar gael yn ddwyieithog ac ar ffurf hawdd ei deall.<br><br>Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor. Roedd fersiynau o'r arolwg ar gael i'w lawrlwytho mewn amrywiaeth o fformatau ar gais. Rhannwyd manylion yr ymgynghoriad drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, gan gyrraedd 4,173 o bobl a chan arwain at 187 o ymgysylltiadau. Lluniwyd datganiad i'r wasg ar gyfer y cyfryngau lleol a chafodd gyhoeddusrwydd ar wefan y Cyngor.<br><br>Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid allweddol; aeth aelodau o staff y Tîm Cydraddoldeb, Y Gymraeg ac Ymgynghori i gyfarfod sirol Caerphilly People First a Grwpiau'r Rhwydwaith Rhieni er mwyn cael gwybod barn y cyfranogwyr am bob un o'r amcanion cydraddoldeb drafft. Cyfarfu hwylusydd Iaith Arwyddion Prydain â phobl Fyddar ledled y fwrdeistref sirol, gan ddogfennu eu sylwadau ar y cynllun drafft, a chyflwyno crynodeb o'u sylwadau. Yn yr un modd, cynhaliodd Disability Can Do sesiynau ymgynghori â grwpiau anabledd er mwyn cael gwybod eu barn ar yr amcanion cydraddoldeb drafft.<br><br>Tynnodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at nifer o themâu cyffredin yn ogystal â materion a rhwystrau penodol mewn perthynas â'r amcanion drafft a amlinellwyd.<br><br>Er i ni ymdrechu i ymgysylltu â phob sector o'r gymuned, mae'n amlwg na chafwyd unrhyw ymatebion gan unigolion sy'n cynrychioli grwpiau crefyddol lleol na'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.  Ymdriniwyd â hyn fel cam gweithredu o dan Amcan Cydraddoldeb Strategol 4 - *Adolygu a diweddaru ein grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn y fwrdeistref sirol sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchodedig.*<br><br>Er mwyn gweld yr ymgynghoriad llawn, edrychwch ar y ddogfen gysylltiedig Adroddiad ar yr Ymgynghoriad |

## MONITRO AC ADOLYGU

| | |
|---|---|
| **8** | **Sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro?**<br>*(Pa broses fonitro a roddwyd ar waith i asesu i ba raddau y caiff y gwasanaeth ei ddefnyddio gan bob rhan o'r gymuned, neu i ba raddau y mae'r cynigion ar gyfer arbedion yn cyflawni'r canlyniadau bwriadedig heb unrhyw effaith andwyol? A oes systemau sylwadau neu gwynion ar waith i gofnodi materion fesul categori Cydraddoldeb er mwyn gallu dadansoddi ymatebion gan grwpiau penodol?)*<br><br>Mae gan yr amcanion cydraddoldeb gamau gweithredu cysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod yn fesuradwy a'u bod yn anelu at gyflawni canlyniadau. Caiff cynnydd ei fonitro drwy drefniadau ar gyfer cynllunio gwasanaethau a thrwy Asesiadau o Berfformiad Cyfarwyddiaethau. Nod yr asesiadau hyn yw dod ag amrywiaeth o wybodaeth a gaiff ei chofnodi ar wahân ynghyd i greu 'un ffynhonnell wirionedd'. Y diben yw cynnig dealltwriaeth o'r ffordd y mae pob Cyfarwyddiaeth yn perfformio, gan nodi achosion ac effeithiau a gweithredu'n unol â'r wybodaeth hon er mwyn gwella. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb ac iaith ac fe'i cyflwynir hefyd i'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet.<br><br>Unwaith y flwyddyn, rydym yn cyflwyno adroddiad i'r cyhoedd ar ein perfformiad yn erbyn ein Hamcanion Llesiant ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am welliannau mewn perthynas â chydraddoldeb a'r Gymraeg. Rydym yn nodi unrhyw fethiannau a'r hyn rydym wedi'i ddysgu a beth rydym yn ei wneud er mwyn gwella.<br><br>O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i lunio a chyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol mewn perthynas â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n cyflwyno adroddiad ar gynnydd y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau yn erbyn y dyletswyddau statudol, dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ei hun. Mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. |

| | |
|---|---|
| **9** | **Sut y caiff y gwaith monitro ei werthuso?**<br>*(Pa ddulliau a ddefnyddir i sicrhau bod anghenion pob rhan o'r gymuned yn cael eu diwallu?)*<br><br>Byddwn yn sicrhau y caiff y camau gweithredu a amlinellir yn y CCS eu cyflawni dros y cyfnod o 4 blynedd. |

| | |
|---|---|
| **10** | **A nodwyd unrhyw ofynion o ran cymorth / arweiniad / hyfforddiant?**<br>*(A yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu'r broses ymgynghori wedi dangos bod angen gwella ymwybyddiaeth ymhlith y staff, neu wedi nodi'r angen i gynnal hyfforddiant Cydraddoldeb neu hyfforddiant Cymraeg o ryw fath?)*<br><br>Nodwyd nifer o ofynion hyfforddi ac fe'u cynhwyswyd fel camau gweithredu yn y CCS. |

| | |
|---|---|
| **11** | **Os nodwyd unrhyw effaith andwyol, amlinellwch unrhyw gamau lliniaru.**<br><br>Dd/B |

| | |
|---|---|
| **12** | **Pa ddefnydd ehangach y byddwch yn ei wneud o'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb?**<br>*(Pa ddefnydd y byddwch yn ei wneud o'r ddogfen hon h.y. fel ymateb ymgynghori, atodiad i adroddiadau cymeradwyo, cyhoeddusrwydd ac ati, yn ogystal â'r camau gweithredu gorfodol a ddangosir isod?)*<br><br>Caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei atodi i'r adroddiad a'r CCS i'w gymeradwyo. |

| | | |
|---|---|---|
| **13** | **Gall asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb arwain at bedwar canlyniad posibl, er y gall mwy nag un canlyniad fod yn berthnasol i gynnig penodol. Nodwch ganlyniad(au) perthnasol yr asesiad o'r effaith isod.** | **Ticiwch fel sy'n briodol:** |
| | **Dim newid sylweddol** – dangosodd yr asesiad o'r effaith fod y cynnig yn gadarn; nid oedd unrhyw bosibilrwydd y byddai'n arwain at wahaniaethu neu effaith andwyol. Manteisiwyd ar bob cyfle i hybu cydraddoldeb. | X |
| | **Addasu'r cynnig** – nododd yr asesiad o'r effaith broblemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswyd y cynnig er mwyn dileu rhwystrau neu hybu cydraddoldeb yn well. | |
| | **Parhau â'r cynnig** – nododd yr asesiad o'r effaith broblemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd i hybu cydraddoldeb. Nodwyd y cyfiawnhad dros barhau â'r cynnig yn glir. (Mae'n rhaid cynnwys y cyfiawnhad yn yr asesiad o'r effaith a rhaid sicrhau ei fod yn unol â'r ddyletswydd i roi sylw dyladwy. Bydd angen rhesymau cymhellol dros y cynigion perthnasol pwysicaf). | |
| | **Rhoi'r gorau i'r cynnig a'i ddileu** – nododd yr asesiad o'r effaith achos gwirioneddol neu bosibl o wahaniaethu anghyfreithlon. Rhoddwyd y gorau i'r cynnig a'i ddileu, neu ei newid. | |

| **Cwblhawyd y ffurflen gan:** | |
|---|---|
| **Enw:** | Anwen Cullinane |
| **Teitl Swydd:** | Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb, Y Gymraeg ac Ymgynghori |
| **Dyddiad:** | 06.12.19 |

| **Cymeradwyaeth gan Bennaeth y Gwasanaeth** | |
|---|---|
| **Enw:** | Stephen Harries |
| **Teitl Swydd:** | |
| **Llofnod:** | |
| **Dyddiad:** | |